



**CYNGOR TREF  
LLANFAIRFECHAN  
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan  
LL330AB 01248681697 Town Clerk: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF  
NOS FERCHER GORFFENNAF 21 2021**

Presennol: Cadeirydd: Maeres Penny Andow; Cyng. Laura Fielding; Cyng. Andrew Hinchliff; Cyng. Rob Jewell; Dirprwy Faer Cyng Christopher Jones; Cyng Iolo Kars Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Christine Roberts; Cyng Carol Gell;

**71. Croeso gan Gadeirydd y cyfarfod**

**72. Ymddiheuriadau am absenoldeb – Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones; Cyng Gareth Wyn Jones; Cyng Delohne Merrell**  
Penderfynwyd derbyn a chofnodi

**73. Datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chôd Ymddygiad Llywodraeth Leol. Bu i'r Faeres Gynghorydd Penny Andow ddatgan diddordeb yn Eitem 79 fel Cadeirydd Banc Bwyd Llanfairfechan. Bu iddi adael y cyfarfod ac aros yn yr ystafell aros ar-lein ar gyfer yr eitem hon.**

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

**74. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd - Doedd dim aelodau'r cyhoedd yn bresennol**

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

**75. Derbyn a chymeradwyo cofnodion 30ain Mehefin 2021**

Roedd y cofnodion wedi'u cylchredeg yn flaenorol dros e-bost ac wedi'u derbyn wedi'u darllen.

Ychwanegu nodyn at 58.3 Cylchfannau'r A55: Dehongliad pellach o'r pwynt. Y Cyng Robin Millar ydy cadeirydd Uned Adnoddau'r Undeb, wnaeth godi'r syniad o ddefnydd "undeboliaeth cyhyrog" i newid penderfyniadau gan awdurdodau datganoledig. Gall hyn olygu bod prosiectau adeiladu ffyrdd yn flaenoriaeth gan San Steffan, a'u bod nhw'n ystyried herio moratoriwm Llywodraeth Cymru ar sail amgylcheddol.

Materion yn codi:

**68.4 Ymholiad ynghylch gosod caban aros bysiau wrth y Feddygfa. Y Clerc i anfon e-bost at Gyngor Tref Penmaenmawr yn nodi os bydd caban aros bysiau yn cael ei osod yno yna bydd Cyngor Tref Llanfairfechan yn gyfrifol am gostau cynnal a chadw o £500 y flwyddyn ac felly gallai hyn gael ei ystyried fel eu cyfraniad.**

**69.4 Cafodd pryderon mawr eu codi unwaith eto am y sefyllfa parcio amser ysgol a tydy'r Clerc ddim wedi gallu symud ymlaen gyda'r ymholiad gan ei bod wedi bod yn ddiwedd tymor yr haf. Y Clerc dal angen anfon e-bost i godi'r mater gyda'r Cyngor Sir ond nodwyd bod hyn yn fater i'r pennaeth a'r rhieni fynd i'r afael ag o mewn gwirionedd. Nodwyd bod y broblem ym Mhant y Rhedyn wedi gwella gydag ychydig o batrolio gan HGC ond mae'r mater Babanod gyda disgyblion yn croesi ger y maes parcio yn parhau yn broblem. Gofyn pam nad ydy'r disgyblion yn gallu aros yn y maes chwarae - y Clerc i anfon e-bost at yr ysgol.**

Cynigydd Cyng R Jewell Eilydd Cyng A Hinchliff

Yn unfrydol

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

**76. Derbyn a thrafod materion parcio yn y pentref**

**a) Adolygiad parcio a chyfyngiadau Gorwel**

Gohebiaeth gan y Cyngor Sir yn ymddiheuro am yr oedi hir wrth roi newidiadau'r adolygiad parcio ar waith gan gynnwys y broblem yng Ngorwel sydd o bryder mawr. Mae'r adran traffig ar y funud wedi'i llethu gan geisiadau ac mae camau yn cael eu dilyn i ddatrys y sefyllfa. Mae Covid-19 ac ymdeoliadau staff wedi gwaethygu hyn ond rydym yn gobeithio bydd CBSC mewn sefyllfa i roi sicrwydd am ddatblygiad yn fuan.

Mae'r Cyngor Tref yn gobeithio bydd CBSC yn mynd â'r mater hwn ymlaen ar frys. Bydd y Cynghorydd Sir yn ymweld â Gorwel unwaith eto i gynnig cefnogaeth i'r preswylwyr.

**b) Ffordd yr Orsaf ger y groesfan**

Roedd pryderon mawr ynghylch y traffig ar ben pellaf Ffordd yr Orsaf ger y groesfan. Mae'r ceir yn mynd ar y palmant yn barhaol ac yn aml mae'r ceir yn gwrthod symud i'w gilydd. Yn aml, mae tair rhes o draffig gydag un rhes yn gyrru ar y palmant. Cynnig rhoi system un ffordd ar waith gan ddefnyddio Ffordd Plas Gwyn (Pig Street). Fodd bynnag, daeth i'r amlwg na fyddai hyn yn bosibl i fysis mawr ei defnyddio. Y Clerc i anfon e-bost at y Cyngor Sir yn nodi'r pryderon ac awgrymu ymweliad safle gyda'r Cynghorydd Sir yno hefyd.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

**77. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r cynllun gwreiddiol ar gyfer arian Trawsnewid Trefi**

Bu i'r Clerc rannu'r newyddion da bod y Cyngor Tref wedi sicrhau £11,000 o arian gan brosiect Grant Busnesau Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor Tref symud ymlaen gyda'u prosiect Byw yn Dda. Dyma'r nodau:

1. Cefnogi busnesau lleol gan gynnwys cynhyrchwyr bwyd, darparwyr lles ac ymarferwyr creadigol a chynnig marchnad newydd i'w nwyddau a gwasanaethau
2. Cefnogi economi annibynnol sy'n datblygu yn y pentref. Caiff iechyd a lles y gymuned ei wella drwy roi mwy o gyfle i bobl gael bwyd lleol o ansawdd, gwasanaethau busnesau a chynnyrch artisan
3. Cynyddu cydlyniad cymunedol drwy ddarparu fframwaith gefnogi i drigolion i greu cynllun cymunedol fydd yn rhoi llwybr clir i'r dyfodol i'r dref

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar y gwaith sylfaenol oedd wedi'i wneud drwy ymgynghori gyda thrigolion ar sut maen nhw'n gweld dyfodol darpariaeth bwyd yn ein tref. Yn ystod y pandemig, mae'r trigolion wedi gweld bod siopau lleol yn bwysig ac yn gallu bod yn hwb i les person. Mae'r trigolion wedi mynd ôl i siopa'n lleol ac wedi elwa o'r broses o gerdded i'r siopau, cyfathrebu gyda chymdogion a ffrindiau (er drwy gadw pellter cymdeithasol). Rydym ni eisiau manteisio ar hyn drwy weithio gyda siopau a chyflenwyr lleol i annog hoffter newydd at fwyd ffres a choginio cartref.

I helpu i gyflawni ein nod, mae'r Cyngor Tref yn ddiweddar wedi cyflogi Swyddog Datblygu am 10 awr yr wythnos ond does dim oriau ar gael ar hyn o bryd fel rhan o'r swydd i ddatblygu'r fforymau marchnadoedd a busnesau. Daw'r aelod o staff gyda geirda ardderchog ac yn flaenrol wedi gweithio gyda SPARC ar brosiect marchnad fwyd leol ac felly gydag enw da. Gydag oriau ychwanegol, gall y Swyddog Datblygu weithredu fel pwynt mynediad canolog i randdeiliaid yn y prosiect. Caiff y swydd hon ei rheoli a'i chefnogi gan Glerc y Dref sy'n gweithredu fel sianel rhwng gwaith y Cyngor Tref a Fforwm Busnes Llanfairfechan a Phartneriaeth Gynllunio Gymunedol Llanfairfechan sydd wrthi'n datblygu.

Bydd y digwyddiadau canlynol yn digwydd cyn diwedd mis Mawrth 2022

**5 x Marchnad Fwyd – marchnadoedd bwyd ac artisan i'w datblygu gan y Swyddog Prosiect a Chlerc y Dref • Wedi'u marchnata ar gyfer trigolion ac ymwelwyr**

5 x Sesiwn hyfforddiant Cefnogaeth i fusnesau lleol – gaiff eu darparu mewn partneriaeth gyda hyfforddwyr busnes itsLello Llanfairfechan i roi cefnogaeth bersonol i Lanfairfechan, Penmaenmawr ac Abergwyngregyn. Yn y pentref ac yn canolbwyntio ar unrhyw fylchau sydd wedi'u nodi mewn hyfforddiant. Bydd y sesiynau hyn yn mynd yn dda gyda'r gwaith gaiff ei ddarparu gan Ganolfan Fusnes Conwy a Busnes Cymru oherwydd bydd yn fan cychwyn ar gyfer cefnogaeth i fusnesau.

5 x Sesiwn Cysylltu gyda'r Gymuned – Cynllun Cymunedol Llanfairfechan. Trwy'r cynllun rydym yn anelu i gwrdd â gofynion economaidd y pentref i'r dyfodol, drwy gysylltu gyda'r gymuned i gefnogi'r economi leol a helpu tuag at ffyniant. Rydym yn anelu at ddull gydgysylltiedig o ddatblygu i'r dyfodol, sy'n arbennig o bwysig gan ein bod wedi ein targedu ar gyfer tai ychwanegol yn CDLI newydd Conwy. Rydym yn gweld hyn fel cyfle i wella'r dyfodol i'r holl drigolion yn y pentref trwy symud y pentref o fod yn ddibynnol yn ariannol i fod yn ariannol annibynnol.

1x Digwyddiad Llanfairfechan yn Dathlu - cyfle i ddathlu'r hyn sydd wedi'i gyflawni a chyflwyno sesiynau blasu o wasanaethau yn y Neuadd Gymunedol

Yn ychwanegol i'r arian hwn, mae rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn cynnig arian pellach i Gyngorau Tref trwy eu Rhaglen Creu Lleoedd. Mae'n rhaid bod cynllun trosfwaol gyda thargedau cydgysylltiedig mewn lle a dylai cynigion partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, cyngorau tref a rhanddeiliaid gael eu cyflwyno mewn ymgais i ddenu arian nawdd. Mae hon yn rhaglen ariannu tair blynedd a'r neges gan yr arianwyr ydy y dylai cynigion gael eu cyflwyno yn ofalus a chanolbwyntio ar y materion lleol pwysicaf. Y tîm o staff i weithio dros yr haf i ddod ag unigolion sydd â diddordeb ynghyd gyda Chynghorwyr Tref a Swyddogion CBSC i edrych ar ffyrdd ymlaen ar gyfer cais gan Lanfairfechan. Bydd hefyd angen cynnwys hyn ar yr agenda ym mis Medi i'w gymeradwyo ymhellach.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

78. Derbyn a chymeradwyo rheoliadau Covid-19 ynghylch digwyddiad noson Tân Gwylt 2021 a chynlluniau ar gyfer Goleuo'r Llan Nadolig 2021

Digwyddiad noson Tân Gwylt 2021 – Mae pryderon o hyd am bandemig Covid-19 ond y teimlad ydy y dylem archebu'r tân gwylt dros do rhag ofn y bydd yn anodd ei archebu nes ymlaen. Mae sawl ymholiad wedi bod am dân gwylt tawel felly'r Clerc i ymchwilio i hyn.

Goleuo'r Llan 2021 – fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae Goleuo'r Llan wedi dod i ddiwedd, a bydd angen i'r Cyngor Tref ddarparu rhyw fath o ddathliad ar gyfer 2021. Oherwydd newidiadau i reolau ynghylch golau ar y ffordd fawr a diffyg amser, caiff y goleuadau eleni eu darparu fel rhan ychwanegol o'r prosiect coed solar. Y Clerc i fynd ymlaen gyda'r archeb yn barod i dderbyn cadarnhad ym mis Medi. Bu awgrym ein bod yn archebu coed polyn lamp yn unig ac yn darparu hanner coeden ar gyfer pob polyn lamp. Fel sydd wedi'i drafod yn flaenorol, caiff digwyddiad o ddathlu ei ddarparu ar ddydd Sadwrn 20<sup>fed</sup> o Dachwedd fydd yn cynnwys y canlynol:

- Marchnad Fwyd ac Artisan tu allan ar ben pellaf Ffordd y pentref
- Ffair ar waelod Ffordd y Pentref
- Marchnad Grŵp Cymunedol yn Neuadd Gymunedol y Dref
- Coed Nadolig solar i gynnig dewis gydag effaith amgylcheddol is, diogel a di-lafur

Y Clerc i ofyn i'r Rotari os allan nhw gynnal eu digwyddiad Sion Corn ar ddydd Sul 21<sup>ain</sup> o Dachwedd yn y cyntedd, yn debyg i ddigwyddiad 2020 gan ei fod mor llwyddiannus.

Bu cais ein bod yn ystyried dewis amgylcheddol a di-blastig ar gyfer y digwyddiad ac yn annog stondinwyr i ddilyn y polisiâu hyn. Bu trafodaeth ynghylch enw i'r digwyddiad gyda'r Ffair Aeaf yn un awgrym.

Caiff y goleuadau Nadolig presennol eu harchwilio a'u gwirio mewn pryd ar gyfer 2022 fel ei fod yn amlwg beth sydd dal yn addas ac ar gael i'w ddefnyddio. Mae'r drwydded HERS newydd yn gofyn bod gan gontractwyr dystysgrif, ac felly bydd angen ystyried hyn ar gyfer 2022.

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng C Jones

Yn unfrydol

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

79. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynllun ar gyfer ceisiadau grant cymunedol

Dywedodd y Clerc bod ceisiadau ar gyfer grantiau cymunedol yn rhedeg yn hwyr, yn bennaf oherwydd Covid-19. Cytunwyd bod hysbysiad yn mynd allan ar gyfer dyddiad cau ddiwedd mis Awst yn barod ar gyfer cyfarfod mis Medi.

Yn y cyfamser, roedd y Cyngor Tref wedi derbyn cais grant ar frys gan Neuadd Pendalar

Gwybodaeth gefndirol – Mae pwyllgor y neuadd yn cael trafferth parhau ac mae dyled nwy a thrydan. Mae'r cais grant yn gofyn am £1000 o grant s19 i helpu tuag at glirio dyled y gwasanaethau. Mae'r pwyllgor eisiau cau'r pwyllgor a throsglwyddo'r les i Fanc Bwyd Llanfairfechan sy'n chwilio am leoliad mwy gan fod eu gwasanaethau wedi cynyddu yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r pwyllgor wedi'u cynghori i gynnal Cyfarfod Blyneddol i drafod cynlluniau i'r dyfodol, ond oherwydd salwch a heriau ariannol sy'n parhau, tydy'r pwyllgor presennol ddim eisiau parhau.

Cwestiwn 1 Pryder y bydd ymgymryd ag adeilad yn ymestyn adnoddau'r Banc Bwyd. Nodwyd bod y Banc Bwyd angen lleoliad mwy er mwyn parhau oherwydd ei ddefnydd presennol ac roedd yr arian wedi dod ar gael i helpu i ddod o hyd i leoliad addas.

Cwestiwn 2 Sut fydd gweddill y ddyled yn cael ei thalu? Mae hyn yn rhywbeth i'r cwmni nwy a'r pwyllgor presennol ei drafod. Fodd bynnag, bydd talu'r £1000 cyntaf yn caniatáu ar gyfer rhyw fath o drafodaeth i allu talu'n fisol ond bydd angen i'r darparwr a'r pwyllgor presennol ddod i gytundeb ar hyn.

Cwestiwn 3 Pryder y bydd helpu fel hyn efallai yn agor y drws i grwpiau eraill sy'n ei chael hi'n anodd. Mae perygl o hyn, ond nodwyd bod hwn yn gyfnod anodd a dylen ni fod yn cefnogi grwpiau trwy eu heriau. Mae hon wirioneddol yn sefyllfa o argyfwng ac roedd y cynghorwyr yn bryderus ynghylch cau lleoliad cymunedol gwerthfawr, yn arbennig ym Mhendalar.

Cwestiwn 4 Beth fydd yn digwydd os na fydd y Cyngor Tref yn helpu? Caiff y ddyled ei throsglwyddo i gwmni casglu dyledion ac efallai bydd y pwyllgor yn gyfrifol amdani. Mae'r neuadd wedi bod mewn trafferthion cyn Covid-19 ond mae cau'r neuadd wedi cael effaith fawr.

Roedd y Cyngor Tref yn falch bod y Neuadd y gallu parhau i gael ei defnyddio at fudd y gymuned a nodwyd y dylai bod cydnabyddiaeth o ymrwymiad aelodau'r pwyllgor dros y blynyddoedd. Y Clerc i adrodd yn ôl i'r pwyllgor a chynnig helpu i gynnal Cyfarfod Blynyddol cyn gynted â phosibl.

Derbyn a thrafod cynlluniau ar gyfer cynllun newydd Incredible Edibles ar gyfer gwllau cymunedol a mainc gymunedol

1. Awgrymiadau canlynol y gall gosod meinciau mwy llachar yn y pentref fod o fudd, roedd y Clerc wedi rhannu ychydig wybodaeth am feinciau lliwgar wedi'u gwneud o blastig wedi'i ailgylchu. Nodwyd y dylai bod cefnau i'r meinciau ac y byddai rhai lliwgar yn ychwanegiad cadarnhaol iawn. Y tîm o staff i ddatblygu rhai syniadau o le i'w gosod a chael dyfynbrisiau i'w cyflwyno yng nghyfarfod mis Medi.
2. Mae gwely newydd Incredible Edibles wedi'i gynnig ar gyfer y gwely ger pont y rheilffordd ar Ffordd yr Orsaf. Mae gwaith wedi'i wneud i ddod o hyd i'r tîrffeddiannwr ac rydym yn aros am gytundeb i ddechrau datblygu'r ardal. Bu sesiwn gymunedol yno ac mae map gyda syniadau wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

80. Derbyn a chymeradwyo taliadau ar gyfer mis Mehefin 2021 ac Adroddiad Ariannol Gorffennaf  
Roedd yr adroddiad ariannol a'r cymod wedi'u rhannu drwy e-bost cyn y cyfarfod.

1. Taliadau Staff Gorffennaf – cyflogau, cyfraniadau pensiwn gweithwyr a chyflogwr hyd yma - £3800
2. Taliadau Staff Awst – cyflogau, cyfraniadau pensiwn gweithwyr a chyflogwr hyd yma - £3800
3. Viking (Neuadd gymunedol i ad-dalu) nwyddau glanhau Covid-19 a sgriniau ffenestri ar gyfer yr ymwelwyr iechyd £605.69
4. Cyfieithu Cymunedol Menter Iaith i'w gadarnhau
5. SLCC ILCA i hyfforddiant CILCA Clerc y Dref £120.00
6. Ôl-daliad – Cyng Rob Jewell Planhigion ar gyfer daliwr planhigion y groesffordd £76.55
7. Gwefan Gymraeg TG Delwedd 218.98

Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng A Hinchliff Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a chofnodi

82. Trafod materion cynllunio

0/48635 Greenhills The Close Llanfairfechan Conwy LL33 0AG Coeden mewn Ardal Gadwraeth

Nodwyd bod y cais cynllunio hwn â diffyg manylion a chyfiawnder ar gyfer y gwaith. Y Clerc i anfon e-bost at y pwyllgor cynllunio i roi gwybod am hyn a gofyn bod cyngor y swyddog coed yn cael ei ddilyn.

Roedd cais cynllunio munud olaf wedi dod i law a bu i'r Clerc ei gyflwyno gan ei bod hi bron yn wyliau'r haf.

0/48168 Grey Gables The Close Llanfairfechan LL330AG Newid ffenestri plwm mewn ardal gadwraeth

Y Cyngor Tref yn gofyn bod yr ymgeisydd yn dilyn cyngor y swyddogion cadwraeth a chynllunio

83. Derbyn gohebiaeth -

1. Roedd e-bost wedi'i dderbyn gan gwmni yswiriant ceir yn ymwneud â difrod oherwydd tyllau mawr yn y ffordd. Mae'r e-bost wedi'i hanfon ymlaen at y Cyngor Sir fel perchennog y tir ac mae ateb wedi'i anfon i'r cwmni yn dweud y dylen nhw gysylltu gyda CBSC yn uniongyrchol. Roeddem yn cydnabod y gall yr e-bost fod yn dwyll ond roedd rhaid trin yr e-bost fel un go iawn.

2. Roedd yr holl e-byst eraill gyda gwybodaeth wedi'u cylchredeg yn flaenorol drwy e-bost yn dilyn rheoliadau Covid-19

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

**84. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd**

1. Mae'r Cynghorwyr Sir wedi cyfarfod gyda Chynghorwyr Sir Penmaenmawr i drafod gwaith prosiect posibl ar y cyd rhwng y cymunedau. Roedd teimlad y dylai unrhyw waith gynnwys Cynghorwyr Tref yn y drafodaeth. Mae cyfarfod pellach wedi'i drefnu a bydd Cynghorwyr Sir Llanfairfechan yn adrodd yn ôl ar unrhyw wybodaeth.

2. Mae Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llanfairfechan wedi cyfarfod yr wythnos hon a bu trafodaeth ynghylch y mater o offer cyfarfod hybrid. Y Clerc i fynd ati i brynu hyn a rhoi gwybod dros e-bost yn ystod yr haf. Bydd angen ychwanegu'r mater hwn ar gyfer agenda cyfarfod mis Medi. Penderfynwyd derbyn a chofnodi

**85. Derbyn pryderon brys a chanmoliaethau**

1. Nodwyd bod y Cynghorwyr Tref wedi derbyn e-bost ynghylch y paent glas yn y pwll padlo sydd wedi difetha dillad. Y Clerc i roi gwybod i'r swyddog yn y Cyngor Sir a gofyn am archwiliad.

2. Nodwyd yn ystod y cyfnod clo bod 85% o amser yr heddlu wedi'i dreulio ar faterion yn y gymdogaeth. Mae'n dystiolaeth o'r straen sydd ar y trigolion ar y funud oherwydd pandemig Covid-19 ac mae'n rhywbeth mae'r Cyngor Tref yn ei gydnabod fel datblygiad pryderus.

3. Cais bod y Cyngor Tref yn prynu darnau mân o lechi ar gyfer gwllâu'r senotaff er mwyn mynd i'r afael â'r pridd gwael sydd yno. Awgrym ein bod yn gofyn i ddisgyblion yr ysgol greu cerrig pabi wedi'u peintio er mwyn creu ychydig o ddi-ddordeb. Cwestiwn am y pabi? Yn anffodus, rydym wedi ceisio cyngor a byddai'r cysgod a gwreiddiau'r coed o gwmpas yr ardal yn ei gwneud hi'n anodd plannu yno. Prosiect celfyddydau posibl i'r dyfodol i greu diddordeb i'w ystyried.

Cais ein bod yn gofyn am gael prynu llechi lleol.

4. Adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â rhai cerbydau gweryslla ddaeth i'r promenâd dros y penwythnos. Dylid atgoffa'r trigolion bod angen rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad sy'n peri pryder trwy wefan CBSC neu'r rhif 101/ neges sydd ddim yn argyfwng i Heddlu Gogledd Cymru. Codwyd cwestiwn am gerbydau sy'n ymddangos eu bod yn aros yn llawn amser - sut mae'r rheolau am wersylla parhaol yn cael effaith ar hyn? Y Clerc i holi'r Cyngor Sir. Nodwyd bod rhai o berchnogion y cerbydau gweryslla hyn yn gofalu am ac yn helpu'r gymdeithas, gan hyd yn oed godi sbwriel a helpu i fonitro ymddygiad.

5. Mae'r adroddiadau am lysiau'r dail wedi codi'r cwestiwn o bwy sy'n berchen ar lan yr afon ac ardaloedd cyffredin. Cais bod y Cyngor Tref yn cael map o'r pentref allai helpu gydag unrhyw ymholiadau ayb.

6. Cwestiwn am gynnig Conwy i wneud cais am Statws Diwylliant. Mae'n bwysig nad ydy hyn yn canolbwyntio ar Gonwy, Llandudno a Bae Colwyn. Ni ddylai Llanfairfechan fethu allan. Dywedodd y Clerc fod gennym ni gysylltiadau a gwybodaeth trwy rwydwaith y clercod ac rydym ni yn rhan o'r grŵp sy'n rhannu gwybodaeth am hyn.

7. Nodwyd bod dŵr o'r diwedd yn cael ei gysylltu ym mynwent Erw Feiriol. Mae hon wedi bod yn broses hir a rhwystredig iawn, ond rydym yn croesawu bod y gwaith o'r diwedd yn cael ei gwblhau.

8. Partïon yn y goedwig ar hyd y Cob. Mae pryderon wedi'u codi gyda'r heddlu gan fod grwpiau o bobl ifanc yn dod i'r pentref ar fysiau a threnau ac maent yn gwneud llanast ac yn ymddwyn yn swllyd. Caiff trigolion a chynghorwyr eu hannog i adrodd am hyn i'r awdurdodau priodol ac mae hefyd modd gwneud hynny yn ddiennw drwy Crimestoppers 0800 555 111.

9. Codwyd pryderon ynghylch pobl yn gyrru sgwteri a beiciau trydanol ar hyd y palmant. Nodwyd nad ydy hi'n gyfreithiol i feiciwr reidio beic ar y palmant. Yr un fath a sgwteri petrol, tydy hi hefyd ddim yn gyfreithiol i reidio sgwter trydanol ar y palmant. Mae modd rhoi gwybod am yr ymddygiad yma yn union fel sydd wedi'i nodi yn y pwynt blaenorol.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi.

70. Bu i'r Cadeirydd gau'r cyfarfod am 9:10yh drwy ddiolch i'r holl gynghorwyr am eu cyfraniadau cadarnhaol yn ystod pob cyfarfod a gobeithio y bydd pawb yn mwynhau eu hunain yn ystod y gwyliau ym mis Awst.

**Cyfarfod nesaf: Cyfarfod Llawn y Cyngor Tref Nos Fercher Medi 1af 2021 am 7yh. Rydym yn gobeithio caiff y cyfarfod ei gynnal yn Neuadd Gymunedol y dref, yn dibynnu ar bandemig Covid-19.**